

Proffil Disgybl



Dyma Idris. Mae Idris yn 9 oed ac mae'n ddisgybl ym mlwyddyn 4. Mae ganddo un chwaer o'r enw Ella sydd yn y dosbarth Derbyn yn yr un ysgol.

Nid yw Idris yn mwynhau gwaith dosbarth, ar wahân i'r gwersi ymarfer corff a chwaraeon. Mae'n casáu darllen, ysgrifennu a mathemateg ond yn fodlon gwneud gweithgareddau ar lechen neu gyfrifiadur. Os nad yw'n cael gwneud hyn, weithiau mae Idris yn pwdu ac mewn tymer wael. Bryd hynny mae'n gofyn i Mrs James, yr athrawes, am ganiatâd i fynd allan o'r dosbarth er mwyn cael amser tawel iddo'i hun.

Mae Mrs James yn poeni nad yw gwaith academiaidd Idris o'r un safon a gwaith ei gyfoedion. Er hynny mae'n amlwg ei fod yn mwynhau gweithgareddau ymarferol, yn enwedig os oes cyfle i fynd tu allan. Mae wrth ei fodd yn helpu Mrs James gyda thasgau megis tacluso'r dosbarth, llun-gopïo gwaith neu roi dŵr i'r blodau yng ngardd yr ysgol. Mae wedi arfer â helpu ei fam i edrych ar ôl yr ardd adref.

Pan nad yw Idris am gwblhau ei waith, nid yw'n torri ar draws y dosbarth, dim ond eistedd yn dawel yn breuddwydio am ei hoff dîm pêl-droed. Mae'n hoff iawn o wylïo gemau pêl-droed ar y teledu ar y penwythnos, ond mae'n well ganddo gicio pêl ar ei ben ei hun ar yr iard yn hytrach na chwarae gyda rhywun arall neu fel aelod o dîm.

Wrth adfyfrio ar sut y gall gefnogi Idris i ddatblygu ymhellach, mae Mrs James yn ystyried rhai o'i brif nodweddion sydd yn cynnwys:

Datblygiad Corfforol

- Sgiliau echddygol bras wedi'u datblygu'n dda e.e. neidio, troi, perfformio tasgau mewn gwersi ymarfer corff
- Printio wrth ysgrifennu yn hytrach na defnyddio llawysgrifen glwm
- Gwisgo ei hun yn dilyn gwersi nofio ac ymarfer corff

Datblygiad Gwybyddol

- Adnabod amser ar yr awr, chwarter wedi a hanner awr wedi ar gloc analog
- Cael hi'n anodd i ganolbwyntio am amser hir

Datblygiad Emosiynol

- Cael siom os yw'n methu cyflawni tasgau neu'n cael atebion anghywir
- Awyddus i blesio oedolion

Datblygiad Ieithyddol

- Meddu ar eirfa eang ar lafar ond yn cael anhawster canolbwyntio wrth ddarllen ac ysgrifennu
- Dechrau deall a defnyddio hiwmor ar lafar

Datblygiad Cymdeithasol

- Ymddwyn yn barchus tuag at oedolion a phlant eraill
- Mwynhau gweithio ar ei ben ei hun yn hytrach na gydag eraill
- Mynegi barn am hoffterau a chas bethau

Wrth fynd drwy'r modwl, byddwch yn dod ar draws agweddau eraill o ddatblygiad Idris. Dychmygwch mai chi yw ei athrawes/athro dosbarth. Sut y gallech chi helpu Idris i wneud cynnydd yn ei ddysgu a'i ddatblygiad?